School case study
Llantwit Major Comprehensive

School details

Local Authority: The Vale of Glamorgan
School type: Secondary
Number of children at school: 931 in Llantwit Major, 1565 in cluster (including 4 feeder schools)
Number of Service Children at school: 91 in Llantwit Major, 141 in cluster

Most common support needs of Service Children in your school:

- Additional emotional support required during times of mobility and deployment
- Help settling into new school and local community - making new friendship groups
- Suffering from anxiety when moving into or out of the school/area
- Identifying gaps in curriculum due to changes in education systems
- Additional support with core subjects
- Establishing ways to encourage parent engagement with school.

Details of the support your school provides to its Service Children:

We have a 'Partnership coordinator' role in school who coordinates the Service Children project across the Comprehensive and partner feeder schools. We employ the equivalent of five Learning Support Assistants (LSAs) to work across the cluster and we provide them with training when necessary.
We monitor wellbeing testing data, and endeavor to monitor pupils during times of mobility/deployment. When appropriate we offer emotional support/counselling for the pupils.
Our wellbeing department support MAT and SEN needs, and have made links with an outside provider to run a leadership programme focused on developing the skills of more able Service Children.
When a Service Child is admitted into the School, we buddy them up with another child from a similar background who lives in their area and is of the same ability. We encourage our new pupils to join various lunchtime/after school clubs to help them form new friendships and feel part of the school and community.
At the end of every half term, we collate and analyse data to identify Service Children who are not meeting their target levels in all subjects. We then arrange for appropriate support to be put in place through our wellbeing team, which includes catch up sessions and mentoring for core subjects.
There is a homework club available for Service Children on a Thursday after school - during this time we encourage parents/guardians to come in and speak with the Partnership Officer.
We work hard to engage pupil and parent voice through regular meetings so they can suggest how they think we can improve our provision. Our Community Forum meetings bring together parents, school staff and a range of partnership organisations including Royal British Legion, HIVE and AFF.
We have engaged the services of the Military Preparation College (MPCT) in Cardiff, who provide excellent pupil support. They have been running programmes for MoD pupils, MAT pupils and underachievers with a focus on the development of leadership, team building, thinking and communication skills. MPCT have also mentored some of our pupils who were not reaching their target grades in core subjects and run an after school club for Service Children and their peers.

Additional funding to support this work:

The past few years we have been successful in our application for an MOD Education Support Fund (ESF) as a cluster bid with our four feeder schools. Last year (2017/18) the amount we received was £118,00.
We were also successful in our application for a small Armed Forces Community Covenant grant of £18,000.
This has helped us to continue our partnership with MPCT, run revision sessions and to buy some team building equipment, which can be used during MPCT sessions.

Astudiaeth Achos Ysgol
Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr

Manylion ysgol

Awdurdod Lleol: Dyffryn Morgannwg
Math o Ysgol: Uwchradd
Nifer y plant yn yr ysgol: 931 yn Llanilltud Fawr, 1565 yn y clwstwr (gan gynnwys 4 ysgol gyflenwi)
Nifer y Plant Gwasanaeth yn yr ysgol: 91 yn Llanilltud Fawr, 141 yn y clwstwr

Anghenion cefnogi mwyaf cyffredin y Plant Gwasanaeth yn eich ysgol:

- Cefnogaeth emosiynol ychwanegol sydd ei angen ar adeg symud a lleoli
- Cymorth i setlo mewn ysgol newydd a'r gymuned leol – gwneud grwpiau newydd o ffrindiau
- Yn pryderu wrth symud i mewn neu allan o'r ysgol/ardal
- Canfod bylchau yn y cwricwlwm oherwydd newidiadau mewn systemau addysg
- Cefnogaeth ychwanegol gyda phynciau craidd
- Sefydlu ffyrdd o annog rhieni i ymgysylltu â'r ysgol.

Manylion y gefnogaeth y mae eich ysgol yn ei ddarparu i'r Plant Gwasanaeth:

Mae gennym swydd 'Cydlynydd Partneriaeth' yn yr ysgol sy'n cydlynu'r prosiect Plant Gwasanaeth yn yr ysgol Gyfun ac ysgolion cyflenwi partneriaeth. Rydym yn cyflogi cyfwerth â phum Cymhorthydd Cefnogi Dysgu (LSA) i weithio ar draws y clwstwr ac rydym yn rhoi hyfforddiant iddynt pan fo angen.
Rydym yn monitro data profi lles, ac yn ceisio monitro disgyblion yn ystod adegau symud/lleoli. Pan fydd yn briodol, rydym yn cynnig cefnogaeth/cwnsela emosiynol i'r disgyblion.
Mae ein hadran lles yn cefnogi anghenion Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog ac Anghenion Addysgol Arbennig, ac wedi gwneud cysylltiadau gyda darparwr allanol i gynnal rhaglen arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau Plant Gwasanaeth mwy galluog.
Pan fydd Plentyn Gwasanaeth yn cyrraedd yr ysgol, rydym yn eu paru gyda phlentyn arall o gefndir tebyg sy'n byw yn eu hardal ac â'r un gallu. Rydym yn annog ein disgyblion newydd i ymuno ag amryw o glybiau amser cinio/ar ôl ysgol i'w helpu i wneud ffrindiau newydd a theimlo'n rhan o'r ysgol a'r gymuned.
Ar ddiwedd bob hanner tymor, rydym yn casglu a dadansoddi data i ganfod Plant Gwasanaeth sydd ddim yn cyrraedd eu lefelau targed ym mhob pwnc. Yna, byddwn yn trefnu i sefydlu'r gefnogaeth briodol trwy ein tîm lles, sy'n cynnwys sesiynau dal i fyny a mentora ar gyfer pynciau craidd.
Mae clwb gwaith cartref ar gael i blant gwasanaeth ar ddydd Iau ar ôl ysgol – yn ystod yr amser hwn rydym yn annog rhieni/gwarcheidwaid i ddod i mewn a siarad gyda'r Swyddog Partneriaeth.
Rydym yn gweithio yn galed i ymgysylltu â disgyblion a rhieni trwy gyfarfodydd rheolaidd fel y gallant awgrymu sut y gallwn wella ein darpariaeth. Mae ein cyfarfodydd Fforwm Cymunedol yn dod â rhieni, staff ysgol ac ystod o sefydliadau partneriaeth ynghyd gan gynnwys y Lleng Brydeinig Frenhinol, HIVE ac AFF.
Rydym wedi defnyddio gwasanaethau'r Coleg Milwrol Paratoadol (MPCT) yng Nghaerdydd, sy'n rhoi cefnogaeth ragorol i ddisgyblion. Maent wedi bod yn cynnal rhaglenni ar gyfer disgyblion y Weinyddiaeth Amddiffyn, disgyblion Mwy Galluog a Thalentog a thangyflawnwyr, gyda ffocws ar ddatblygu arweinyddiaeth, adeiladu tîm, sgiliau meddwl a chyfathrebu. Mae MPCT hefyd wedi mentora rhai o'n disgyblion oedd ddim yn cyrraedd eu graddau targed yn y pynciau craidd, ac yn cynnal clwb ar ôl ysgol i Blant Gwasanaeth a'u cyfoedion.

Arian ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn:

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi llwyddo yn ein cais am Gronfa Cefnogi Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn fel cais clwstwr gyda'n pedair ysgol gyflenwi. Y llynedd (2017/18) cawsom £118,00.
Llwyddasom hefyd yn ein cais am grant Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog o £18,000. Mae hyn wedi ein helpu i barhau â'n partneriaeth gyda MPCT, cynnal sesiynau adolygu a phrynu offer meithrin tîm, y gellir eu defnyddio yn ystod sesiynau MPCT.